LGBC1M/2002

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 10.30AM DDYDD MAWRTH 15FED IONAWR 2002 TŶ CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Presennol

Comisiynwyr
Mrs. S Smith (Cadeirydd)
Mr. J. Davies (Dirprwy Gadeirydd)
Mr. D Roberts (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth
Mr. E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. S Halsall
Mr. C Chapman
Mr. D Carr

1. Ethol Dirprwy Gadeirydd

1.1 **Etholwyd** Mr. John Elwyn Davies yn Ddirprwy Gadeirydd ar ôl cael ei enwebu gan y Cadeirydd a'i eilio gan Mr. Roberts.

2. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2001

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion hyn.

3. Materion yn codi

3.1 Siroedd a Gedwir

3.1.1 Nododd y Cynulliad bod Mrs Hart wedi cytuno mewn egwyddor i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r siroedd a gedwir, ac y byddai'r cyfarwyddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi i'r Comisiwn cyn bo hir. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth bellach yn gwneud y trefniadau cychwynnol ar gyfer yr arolygon tra'n aros i dderbyn y cyfarwyddiadau.

3.2 Cyfarfod Agored Blynyddol

3.2.1 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn dal i ddisgwyl cadarnhad oddi wrth Gyngor Sir Penfro ynglŷn â'r dyddiad ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn am ŷ 2002.

3.3 Llywodraeth Leol Effeithiol a Chyfleus

3.3.1 **Cytunwyd** y byddai trafodaeth yn cael ei chynnal mewn cyfarfod diweddarach am y diffiniad o lywodraeth leol gyfleus ac effeithiol mewn perthynas â gwaith y Comisiwn.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio - Trefniadau ar gyfer Cyfarfod Cyhoeddus

4.1 **Nododd y cyfarfod** bod trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer Cyfarfod Cyhoeddus o'r Comisiwn i'w gynnal yn Neuadd y Dref Llangollen rhwng 17.00 a 20.00 o'r gloch ddydd Mercher 30ain Ionawr 2002. Gwnaed trefniadau i lunio adroddiad gair am air o'r cyfarfod a chomisiynwyd cofnodwr ar gyfer y gweithrediadau. Comisiynwyd cyfieithydd ar y pryd hefyd i gynorthwyo'r cofnodwr a'r Comisiwn. **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth a'r Comisiynwyr gyrraedd Neuadd y Dref Llangollen erbyn 4pm y diwrnod hwnnw.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Bwrdeistref Sirol Tor-faen - Drafft o'r Adroddiad Cynigion Terfynol

5.1 Nododd y cyfarfod y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan Gyfreithiwr y Trysorlys ar ddrafft o Adroddiad Cynigion Terfynol y Comisiwn mewn perthyna's â'i Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Bwrdeistref Sirol Tor-faen.

5.2 **Cytunwyd** y dylid ail-ddrafftio'r adroddiad i ymgorffori'r sylwadau a wnaed gan Gyfreithiwr y Trysorlys, yn unol â phenderfyniad y Comisiwn yng nghyfarfod mis Tachwedd 2001. Nodwyd sylwadau Cyfreithiwr y Trysorlys, ond cytunodd y Comisiwn i barhau â'r penderfyniad a wnaed, o ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn dilyn cyhoeddi Cynigion Drafft.

6. Ceisiadau am Arolygon

6.1 Yn dilyn ceisiadau a wnaed i'r Comisiwn i gynnal arolygon o ffiniau, ysgrifennodd yr Ysgrifenyddiaeth at y gohebwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth ond nis derbyniwyd. **Cytunwyd** os na dderbyniwyd gohebiaeth bellach i beidio â gweithredu ymhellach ar y naill achos na'r llall a hysbyswyd Mrs. Hart o hynny.

7. Arweiniad ac Arfer Gorau ar gyfer Gwefannau Llywodraeth y Cynulliad ac ASPB

7.1 Archwiliwyd papurau gan y cyfarfod a oedd yn ymwneud ag arfer gorau ar Wefannau Cyrff Llywodraethol. Nodwyd sawl maes lle yr oedd gwefan y Comisiwn eisoes yn rhannol neu'n llawn ddiwallu'r gofyniad, ond nodwyd meysydd hefyd lle nad oedd gan y Comisiwn yr arbenigedd na'r adnoddau i ddiwallu'r gofyniad o fewn y terfyn amser sef 1 Mawrth 2002.

7.2 **Cytunwyd** i godi'r materion o amserlen, arbenigedd ac adnoddau gydag Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol y Cynulliad yn ystod y cyfarfod cyswllt nesaf rhwng y ddau gorff.

7.3 **Cytunwyd hefyd** pe bai angen hyfforddiant priodol ar y Rheolwr Technoleg Gwybodaeth i'w alluogi i fonitro unrhyw waith a gynhaliwyd gan unrhyw staff contract a gaiff eu cyflogi i ddatblygu gwefan y Comisiwn i ddiwallu'r safonau arfer gorau, y dylid talu'r costau hyn.

8. Cynllun Gweithredol Blynyddol 2002/03

8.1 Roedd y prif faterion a godwyd ar y Cynllun Gweithredol ar gyfer y Blynyddoedd 2002 - 2003 fel a ganlyn:

i. **Cytunwyd** y dylid cyfeirio at y Comisiwn mewn cofnodion ac adroddiadau / cynigion yn y lluosog, fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. **Nodwyd** bod yr amserau a ddefnyddiwyd i gyfeirio at y Comisiwn wedi cael eu cymysgu mewn cyhoeddiadau drafft diweddar.

ii. Gan gydnabod y gwaith sydd i'w wneud gan yr Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru, **cytunwyd** bod angen creu cydbwysedd gwaith wrth ddyrannu amser ar gyfer y ddau Gomisiwn, o gofio na wireddwyd y lleihad a ragwelwyd o ran gwaith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

iii. Wrth gydbwyso sawl gwaith y dylai'r Comisiwn gwrdd dros y 12 mis nesaf, **cytunwyd** y dylid caniatáu ar gyfer hyd at 11 cyfarfod, ac yn sicr heb fod yn llai na 9, o gofio'r gwaith a ragwelir ar gyfer yr arolwg o Siroedd a Gedwir, a materion eraill a allai godi yn ymwneud ag arolygon ond na ellid eu rhagweld ar hyn o bryd.

iv. Nodwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth ar hyn o bryd yn cael trafferthion wrth recriwtio Swyddog Gweinyddol ar secondiad o'r Cynulliad, ond eu bod bellach yn ceisio recriwtio i'r swydd ar lefel Cynorthwy-ydd Gweinyddol mewn ymgais i apelio at staff ar y raddfa honno ar gyfer swydd o safon uwch. **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifenyddiaeth barhau yn y modd hwn.

v. **Cytunwyd** y dylid newid yr amserlen ar gyfer arolwg posibl Cwm Aman Uchaf i ddechrau ym mis Ebrill 2002 ac i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2003, er y nodwyd y gallai'r Arolwg hwn fod yn gymhleth, a bod posibilrwydd y byddai angen adolygu'r dyddiad cwblhau yn ddiweddarach. I baratoi ar gyfer hyn, **cytunwyd** y byddai trafodaeth bellach ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

9. Unrhyw Fater Arall.

9.1 Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

9.1.1 **Cytunwyd** y byddai'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd mis Ebrill a mis Mai yn cael eu trefnu yn ystod y cyfarfod nesaf, unwaith y byddai'r dyddiad ar gyfer cyfarfod y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer mis Ebrill yn hysbys.

9.1.2 Y dyddiad nesaf a amserlenwyd ar gyfer Cyfarfod o'r Comisiwn oedd dydd Llun 18fed Chwefror 2002 am 10.30am i'w gynnal yn Swyddfeydd y Comisiwn yng Nghaerdydd.

9.2 Comisiwn Llywodraeth Leol i Loegr

9.2.1 Derbyniodd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wahoddiad i fynychu "Cyfarfod Terfynol" y Comisiwn Llywodraeth Leol i Loegr. Byddai gwaith y Comisiwn yn Lloegr yn cael ei wneud gan y Comisiwn Etholiadol o fis Mawrth. Byddai'r "Cyfarfod Terfynol' yn gyfle i "ffarwelio" â'r corff. **Cytunwyd** y byddai'r ddau ohonynt yn cynrychioli'r Comisiwn yn y digwyddiad, gan alluogi'r Cadeirydd i gwrdd â chydweithwyr o Loegr a'r Alban yn rhinwedd ei swydd newydd.

9.3 Cyfieithiadau Cymraeg

9.3.1 Ar awgrym y Cadeirydd, **cytunwyd** y byddai Mr. Roberts a Mr. Davies i ddechrau yn gwirio cyfieithiadau o adroddiadau a chofnodion cyn eu cyhoeddi. Ymhen amser, byddent yn derbyn cyfieithiadau am yn ail er mwyn helpu i leihau'r llwyth gwaith, pe bai hynny'n briodol.

9.4 Cais am Gyfweliad

9.4.1 Derbyniodd y Comisiwn gais gan fyfyriwr astudiaethau'r cyfryngau yng Ngholeg Iâl, Wrecsam i gyfweld â chynrychiolydd o'r Comisiwn mewn perthynas â'r cynigion drafft ar gyfer yr arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ardal Cymunedau Llangollen a Llandysilio. Mae'r myfyriwr wedi rhoi sicrwydd na fydd cynnwys y fideo dilynol ar gael i unrhyw un ar wahân iddo ef a'i diwtor.

9.4.2 **Cytunwyd** y byddai'n amhriodol cynnal cyfweliad o'r fath ar hyn o bryd, o gofio pa mor agos y mae'r adroddiad a'r cynigion terfynol ar gyfer yr Arolwg hwn at gael eu cyhoeddi.